

## UNED : Y FUWCH EIDION – LLOIA

### CYFLWYNIAD

Rhaid cael y lloi i oroesi er mwyn i'r system i fod yn broffidiol.

### PRIF AMCANION AR GYFER LLOIA LLWYDDIANNUS

- ANELWCH AT RWYDDINEB LLOIA – mae lloi sydd wedi cael help adeg lloia'n llawer mwy tebygol o farw ar enedigaeth, neu'n fuan wedyn, felly mae rhwyddineb lloia'n hollbwysig.
  - Dewis o fuwch
  - Dewis o darw
  - Cyflwr corfforol y fuwch adeg lloia - dylai cyflwr corfforol y fuwch adeg lloia fod yn 2-3, a dylai'r cyflwr corfforol delfrydol gael ei gyrraedd o leiaf 50 diwrnod cyn lloia. Dylid osgoi newidiadau mewn cyflwr corfforol ar ôl y pwynt hwnnw er lles y fuwch a'r llo heb ei eni.
  - Maeth i'r fuwch – rhaid rhoi'r egni a'r protein angenrheidiol, a rhaid i lefelau mwynau a fitaminau fod yn gywir yn y deiet.
  
- CYFLEUSTERAU LLOIA - fel arfer, mae lloia tu allan yn golygu amgylchedd iachach i'r llo newydd-anedig, ond os oes rhaid geni dan do, rhaid anelu at greu amodau addas :
  - Gwellt helaeth
  - Sych
  - Wedi ei ddiheintio
  
- GORUCHWYLIO LLOIA – Rhaid delio â phroblemau'n syth
  - Offer wedi'i drefnu'n dda
    - Clymu'r fuwch
    - Cymorth lloia
  - Ymyrryd mewn pryd
  - Cymorth milfeddyg
  
- DECHRAU BYWYD

- Trin y bogail
- Colostrwm

#### ANHWYLDEBAU METABOLIG

- Clwy' llaeth - diffyg calsiwm (yn enwedig hen fuchod) fel arfer o fewn 24 awr i loia, pan na all y buchod dynnu digon o galsiwm o'u hesgyrn a'u deiet, i gwrdd â'u hanghenion
- Hypomagnesemia (y Ddera) - diffyg magnesiwm, yn aml oherwydd porfa doreithiog y gwanwyn (isel mewn magnesiwm) a hefyd mewn cyfnod o straen
- Fel arfer, achosir cetosis (asidedd gwaed) a syndrom iau brasterog (lipidosis hepatic) oherwydd diffyg egni yn y deiet

|   | <b>Clwy' Llaeth</b>   | <b>Dera'r borfa</b>  | <b>Cetosis a syndrom iau brasterog</b>  |
|---|---|--|---|
| <b><i>Amllder</i></b>                     |   |  |   |
| <b><i>Rhai mwyaf tueddol i'w cael</i></b> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwartheg hÿn</li> </ul>  | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwartheg hÿn</li> </ul>   | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwartheg hÿn</li> </ul>  |
| <b><i>Achos dietegol</i></b>              | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Isel mewn calsiwm</li> </ul>   | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Isel mewn magnesiwm</li> </ul>  | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Deiet egni isel a/neu newid sydyn yn y deiet</li> </ul>                                |
| <b><i>Rheswm tebygol</i></b>              | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cymeriant llai adeg lloia</li> <li>• Straen e.e. lloia anodd, cludiant, newid deiet, newid grŵp</li> </ul> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Lefelau uchel o wrtaith gwanwyn</li> <li>• Straen e.e. tywydd drwg</li> </ul> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Glaswellt gwlyb</li> <li>• Straen lloia (a chynhyrchu llaeth ar ei anterth)</li> </ul> |

#### CRYNODEB

- ANELWCH AT RWYDDINEB LLOIA

- Dewis o fuwch
  - Dewis o darw
  - Cyflwr corfforol y fuwch adeg lloia
  - Maeth y fuwch
- GWNEWCH GYFLEUSTERAU LLOIA ADDAS – fel arfer, mae lloia tu allan yn golygu amgylchedd iachach i'r newydd-anedig, ond os oes rhaid geni dan do, rhaid anelu at greu amodau sy'n sych a glanwaith :
  - GORUCHWYLIWCH ADEG LLOIA – rhaid delio â phroblemau'n syth
  - RHEOLWCH DDECHRAU BYWYD Y LLO – trin y bogail a cholostrwm
  - DIOGELWCH Y FUWCH RHAG ANHWYLDEBAU METABOLIG – clwy' llaeth, hypomagnesemia (y Ddera), cetosis (asidedd gwaed) a syndrom iau brasterog (lipidosis hepatic)

FFYNONELLAU GWYBODAETH

HCC (2007) Gwneud y Gorau o'ch Buchod Sugno